Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad ar yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad

# Cyngor Sir Ddinbych Gwasanaethau Oedolion

Tachwedd 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg .

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2025 WG53449 ISBN Digidol 978-1-80633-643-2

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau cymdeithasol i oedolion yng Nghyngor Sir Ddinbych rhwng 08 Medi 2025 a 12 Medi 2025.

1.2 Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'r ddeddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru. Rydym yn ystyried y safonau ansawdd yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru* a'r llinellau ymholi allweddol. Rydym yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf):

**Pobl – llais a rheolaeth**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pob unigolyn yn bartner cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros ei fywyd ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo?

- I ba raddau y mae safbwyntiau'r bobl yn cael eu casglu a'u cofnodi, gan ystyried eu hamgylchiadau personol, eu canlyniadau personol, eu cryfderau, eu risgiau a'u rhwystrau?

**Atal**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff yr angen am ofal a chymorth ei leihau i'r eithaf ac y caiff anghenion eu hatal rhag dwysáu, gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl i'r bobl?

- I ba raddau y mae oedolion yn cael gofal a/neu gymorth mewn modd amserol?

- Sut y caiff rhestrau aros eu rheoli, er mwyn lleihau eu heffaith ar y bobl a'u gofalwyr?

**Llesiant**

- I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau y caiff y bobl eu hamddiffyn a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

**Partneriaethau**

- I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun fod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cynaliadwy, cwbl integredig o ansawdd uchel i'r bobl?

- Pa mor dda y mae'r bobl yn cael eu hannog i gyfrannu at y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal?

## 2. Rhestr Terminoleg a Diffinio Meintiau

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

## 3. Crynodeb o Ganfyddiadau'r Arolygiad – Gwasanaethau Oedolion

3.1 Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn rhoi arweinyddiaeth sefydlog ac yn gyfarwydd iawn â'u gwasanaeth. Mae'r ymarferwyr yn eu disgrifio fel unigolion gweladwy, hawdd mynd atynt a chefnogol.

3.2 Mae'r ymarferwyr yn fedrus, yn arloesol, ac yn ymrwymedig i'r bobl y maent yn eu cefnogi, a chaiff hyn ei gydnabod yn rheolaidd gan yr arweinwyr.

3.3 Mae diwylliant cadarnhaol yn y gwasanaeth, a gaiff ei gefnogi'n gorfforaethol ac yn wleidyddol. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn hyrwyddo proses gyfathrebu ddwy ffordd, a dull drws agored. Mae diwylliant dysgu cryf ynghyd â chyfleoedd i gwblhau hyfforddiant a chael budd o ymarfer myfyriol. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr hefyd yn manteisio ar her adeiladol i gefnogi datblygiad.

3.4 Mae ffocws rhagorol ar lesiant y staff. Caiff yr ymarferwyr a'r arweinwyr eu cefnogi drwy sesiynau goruchwylio ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd; gwneir addasiadau angenrheidiol i hyrwyddo anghenion personol a phroffesiynol.

3.5 Mae recriwtio a chadw staff yn y gwasanaeth yn her barhaus. Mae'r gwasanaeth wedi colli ymarferwyr profiadol, yn aml o ganlyniad i ddyrchafiadau ac ymddeoliadau. Mae ffocws parhaus ar recriwtio a chadw staff, wedi'i gefnogi'n gorfforaethol ac yn wleidyddol.

3.6 Mae angen atgyfnerthu'r ddarpariaeth Pwynt Mynediad Unigol (y drws ffrynt), yn enwedig mewn perthynas â chadw cofnodion cyson, ymwybyddiaeth ymarferwyr o wasanaethau ataliol, a llwybrau atgyfeirio clir.

3.7 Mae'r awdurdod lleol yn cynnig amrywiaeth gref o wasanaethau ataliol. Fodd bynnag, mae pobl weithiau'n wynebu oedi wrth gael asesiadau a gwasanaethau gofal a chymorth amserol.

3.8 Mae'r arferion diogelu yn gadarn ac yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Nodwyd bod aelodau'r tîm diogelu yn hawdd mynd atynt ac yn cael eu cefnogi'n dda, gan gynnwys arbenigedd dynodedig yn y Pwynt Mynediad Unigol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau wrth y drws ffrynt.

3.9 Ceir cydweithrediad gweithredol a strategol cryf ar draws asiantaethau partner, iechyd a gofal cymdeithasol, wedi'i ategu gan dimau wedi'u cyd-leoli fel Timau Adnoddau Cymunedol a'r tîm anableddau cymhleth. Ceir trefniadau cydweithio cadarnhaol â'r heddlu a gwasanaethau digartrefedd yn cyfrannu at ganlyniadau gwell. Mae'r awdurdod lleol yn chwarae rôl ragweithiol mewn prosesau cynllunio strategol a diogelu rhanbarthol. Fodd bynnag, gall ansefydlogrwydd o fewn rhai rolau strategol allweddol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) effeithio ar brosesau cyfathrebu a gwneud penderfyniadau o bryd i'w gilydd.

## 4. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth – Gwasanaethau Oedolion

Rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau allweddol a'n tystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014. Gellir cynnwys gwelliannau yr oedd eu hangen a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol gan AGC yn yr adroddiad hefyd er mwyn pwysleisio eu perthnasedd a'u pwysigrwydd ar yr adeg hon.

### Pobl – Llais a Rheolaeth

#### Cryfderau

4.1 Mae'r asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r asesiadau yn cynnwys y pum elfen allweddol ac yn adlewyrchu sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau â'r bobl i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Maent yn ystyried canlyniadau'r bobl ac yn cyfeirio at ba gyfraniad y gallan nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'r gymuned leol ei wneud tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny. Mae'r cynlluniau gofal a chymorth hefyd yn cyfeirio at lais y bobl.

4.2 Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, ac mae'n amlwg bod pobl yn cael budd o'r cynnig hwn. Mae nifer amrywiol o ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg yn y timau, ond mae digon o gapasiti i ateb y

galw presennol am wasanaeth Cymraeg. Mae ymrwymiad strategol i ddatblygu niferoedd yr ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg yn y gwasanaeth, ac mae'r gwasanaeth yn dysgu sut mae sefydliadau eraill wedi gallu cyflawni hyn yn llwyddiannus. Mae ffocws hefyd ar gapasiti gwasanaethau a gomisiynwyd i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol.

4.3 Mae'r bobl yn cael budd o ddefnyddio taliadau uniongyrchol sy'n eu galluogi i ddewis a chynnal rheolaeth dros y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael, gan leihau dibyniaeth ar wasanaethau gofal a chymorth traddodiadol fel gofal cartref. Mae cymorth gan gynorthwywyr personol yn cael effaith uniongyrchol gadarnhaol ar y broses o hyrwyddo annibyniaeth y bobl.

4.4 Mae'r awdurdod lleol wedi lleihau nifer y bobl sy'n aros am ofal cartref, gan sicrhau bod cymorth mwy amserol ar gael, a helpu i atal anghenion rhag cynyddu.

4.5 Mae'r ymarferwyr yn cael budd o amrywiaeth o fentrau i gefnogi eu llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar lesiant, rhestrau gwirio straen ac argaeledd cymorth iechyd galwedigaethol. Caiff teithiau cerdded llesiant a mynediad at ystafell llesiant eu hyrwyddo. Caiff ymarferwyr â nodweddion gwarchodedig eu trin yn deg. Mae'r ymarferwyr a'r arweinwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn arloesol, sydd hefyd yn cefnogi eu llesiant yn sylweddol. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol am fod cefnogi llesiant staff ym maes gofal cymdeithasol yn hollbwysig i gynnal gweithlu gwydn ac effeithiol.**

4.6 Mae'r arweinwyr yn dryloyw ac yn canolbwyntio ar gynnwys yr ymarferwyr. Mae un enghraifft yn cynnwys gwahoddiad i'r gwasanaeth cyfan fynychu grŵp Rheolwyr Gweithredol sy'n effeithiol wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r timau, nodi prosiectau a datrysiadau a rennir a dathlu llwyddiannau. **Mae cydnabod llwyddiannau yn enghraifft o ymarfer cadarnhaol am ei fod yn ysgogi cymhelliant ac arloesedd ac yn hyrwyddo llesiant ymhellach.**

4.7 Mae'r arweinwyr yn cyfathrebu'n agored ac yn glir. Ceir her adeiladol, a ystyrir yn gadarnhaol i gefnogi a datblygu'r arweinwyr a'r ymarferwyr. Ceir hefyd ddiwylliant dysgu cryf ynghyd â chyfleoedd i gwblhau hyfforddiant a chael budd o ymarfer myfyriol, gan gynnwys fforymau cymheiriaid a sesiynau myfyriol gyda rheolwyr, sef archwiliadau ‘Heart of the Matter’.

4.8 Mae'r ymarferwyr yn cael budd o sesiynau goruchwylio rheolaidd ac effeithiol gyda ffocws cytbwys ar ddatblygiad proffesiynol a llesiant personol. O'r 117 o ymarferwyr a gwblhaodd arolwg AGC, roedd y rhan fwyaf (92%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn cael sesiynau goruchwylio yn rheolaidd, a

dywedodd 90% fod y sesiynau hyn yn rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar eu hymarfer. Mae'r ymarferwyr hefyd yn cael budd o system goleuadau traffig a ddefnyddir wrth oruchwylio i roi trosolwg o lwythi achosion unigol a'u cymhlethdod. **Defnyddir yr adnodd effeithiol hwn yn gyson i gefnogi ymarferwyr ac arweinwyr ac mae'n enghraifft o ymarfer cadarnhaol.**

4.9 Mae'r ymarferwyr yn cael eu cefnogi'n dda gan yr arweinwyr a'u cydweithwyr. Nododd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr (94%) a atebodd gwestiwn yn arolwg AGC ar ba mor dda roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr arweinwyr a'u cydweithwyr eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

4.10 Fel sy'n wir am nifer o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae'r awdurdod lleol yn wynebu heriau wrth recriwtio ar gyfer swyddi a rolau penodol. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol iawn o effaith hyn ac mae'r heriau o ran recriwtio a chadw ymarferwyr yn parhau ar gofrestr risgiau corfforaethol yr awdurdod lleol. Mae camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd, ac yn parhau i gael eu cymryd, i liniaru a lleihau'r risgiau cysylltiedig, wedi'u cefnogi'n gorfforaethol ac yn wleidyddol. Mae'r rhain yn cynnwys mentrau Tyfu Eich Hun lle y caiff ymarferwyr presennol eu cefnogi i ddatblygu drwy lwybrau gradd ar gyfer therapi galwedigaethol a gwaith cymdeithasol, ac ailraddio rolau. Yn gadarnhaol, gwnaed cynnydd mewn rhai timau gan gynyddu sefydlogrwydd a chysondeb wrth ddarparu gwasanaethau.

4.11 Mae hyfforddiant ar gael ac yn cael ei ddatblygu yn unol â meysydd datblygu a nodwyd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.12 Ni chaiff y bobl eu dyrannu'n gyson i ymarferydd penodol hyd yn oed os byddant yn parhau i gael gwasanaeth. Os bydd y bobl yn cysylltu â'r gwasanaeth yn y cyfamser, gall fod yn rhaid iddynt ailadrodd eu stori ac mae diffyg cymorth parhaus. Yn yr un modd, caiff atgyfeiriadau am eiriolaeth ffurfiol/eiriolaeth broffesiynol annibynnol eu gwneud ond yn aml, nid oes ymarferydd a enwyd i'r darparwr gydgysylltu ag ef. Gall hyn arwain at oedi wrth gyfathrebu. Mae'n well gan y bobl a'r ymarferwyr gael ymarferydd a enwyd i gysylltu ag ef. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried sut y gall leihau'r angen i'r bobl/ymarferwyr ailadrodd eu stori a sicrhau eu bod yn cael gwasanaeth cyson mewn modd amserol.**

4.13 Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo eiriolaeth anffurfiol, ffurfiol a phroffesiynol annibynnol. Mae'r bobl yn cael budd o hyn am ei fod yn sicrhau bod eu

safbwyntiau'n cael eu clywed a bod eu hawliau'n cael eu cynnal. Fodd bynnag, mae enghreifftiau lle na chaiff eiriolaeth ei chynnig, gan gynnwys ar gyfer pobl sy'n destun gweithdrefnau diogelu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob ymarferydd yn deall pwysigrwydd eiriolaeth a lle y bo'n briodol, y caiff eiriolaeth ffurfiol ei chynnig, ei chomisiynu a'i darparu pan fo angen.**

**Llesiant**

**Cryfderau**

4.14 Mae'r awdurdod lleol yn archwilio dulliau arloesol a chosteffeithiol sy'n gwella canlyniadau i'r bobl. Mae un enghraifft yn cynnwys y model 'Turn Only Once', lle mae un gofalwr yn darparu gofal personol er mwyn lleihau gofid a hyrwyddo urddas. Gwelodd un o'r ymarferwyr y model hwn ar waith mewn cartref gofal yng Ngwlad Belg ac aeth ati i'w dreialu yn lleol. Ers hynny, mae'r model wedi cael ei ddatblygu ymhellach i gefnogi gofal urddas, effaith isel.

4.15 Mae'r bobl yn cael eu diogelu, ac mae'r awdurdod lleol yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar y cyfan. Mae'r ymholiadau a wneir yn unol ag Adran 126(1) (a.126) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gynhwysfawr ac yn cynnwys asiantaethau/unigolion eraill fel y bo'n briodol. Mae ffocws da ar ddiogelu'r bobl wrth i ymholiadau fynd rhagddynt, ac mae rhesymeg glir i lywio penderfyniadau ynghylch a oes rôl bellach i'r tîm diogelu. Caiff trafodaethau/cyfarfodydd strategaeth eu cynnal yn briodol pan fydd ymholiadau a.126 yn dod i'r casgliad bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin/esgeuluso.

4.16 Ceir tystiolaeth gref fod dull amlasiantaethol ar waith i ddiogelu' bobl. Caiff partneriaid perthnasol ac asiantaethau eraill eu gwahodd i drafodaethau/cyfarfodydd strategaeth, ac mae enghreifftiau cyson o gyfraniadau amlasiantaethol yn cefnogi trafodaethau ac yn llywio'r broses ddilynol o wneud penderfyniadau. Mae timau eraill o fewn y gwasanaeth, fel y tîm contractau a'r tîm comisiynu, hefyd yn ymwneud â'r gwaith o ddiogelu'r bobl a monitro ansawdd gwasanaethau, yn aml ochr yn ochr â chydweithwyr iechyd. Yn yr un modd, mae enghreifftiau o bobl yn cael eu trafod yn briodol mewn cyfarfodydd MARAC (Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg).

4.17 Mae lleisiau bron pob unigolyn yn gryf yn y cofnodion sy'n gysylltiedig â diogelu, a chaiff eu dymuniadau eu ceisio a'u canlyniadau personol eu cofnodi'n glir.

4.18 Mae enghreifftiau o gynlluniau diogelwch yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau gofal a chymorth gan nodi mesurau diogelu clir i hyrwyddo diogelwch

y bobl a sicrhau atebolrwydd clir. Mewn nifer bach o achosion, nid oedd mesurau diogelu presennol wedi cael eu trosglwyddo i gynllun gofal a chymorth newydd yn dilyn newid mewn lleoliad. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn cyfeirio'n gyson at fesurau diogelu perthnasol.**

4.19 Dywedodd yr ymarferwyr a chynrychiolwyr partneriaid ac asiantaethau eraill fod aelodau'r tîm diogelu yn hygyrch ac yn hawdd mynd atynt. Mae hyn yn bwysig wrth rannu gwybodaeth a chyfathrebu rhwng asiantaethau, ac yn sicrhau ymatebion prydlon wrth fynd i'r afael â diogelwch y bobl.

4.20 Caiff galluedd meddyliol y bobl ei ystyried yn briodol ac mae enghreifftiau o asesiadau da o alluedd meddyliol, sy'n canolbwyntio ar y penderfyniadau penodol y mae angen eu gwneud. Mae'r ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gref o egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005, gan gymryd amser i ystyried anghenion, dymuniadau ac amgylchiadau'r bobl.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.21 Mae gan yr awdurdod lleol weithdrefnau clir a chadarn ar waith i ystyried pryderon diogelu ac ymateb iddynt, ac mae'n cydweithio â thimau gwahanol yn y gwasanaeth yn ogystal ag asiantaethau partner a darparwyr. Er bod y camau a gymerwyd mewn perthynas â diogelu unigolion yn glir, nid oedd rhai o'r cofnodion gofal cymdeithasol a welwyd yn nodi'n glir i ba raddau yr oedd yr awdurdod lleol wedi mynd i'r afael ag unrhyw ystyriaethau diogelu ehangach posibl, fel risgiau i bobl eraill yn yr un lleoliad neu wasanaeth. **Dylai'r awdurdod lleol gofnodi/trawsgyfeirio mewn cofnodion gofal cymdeithasol sut mae wedi ystyried risgiau diogelu ehangach posibl ac wedi mynd i'r afael â nhw.**

4.22 Yn debyg i awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn effeithio ar hawliau'r bobl. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymateb i gynnydd yn nifer yr heriau yn ymwneud ag Adran 21A yn y Llys Amddiffyn. **Mae'n gadarnhaol bod yr awdurdod lleol yn cydnabod nad yw'r adnoddau presennol yn ateb y galw a'i fod wedi cynyddu capasiti yn ddiweddar drwy recriwtio Aseswyr Er Budd Pennaf ychwanegol i gynnal asesiadau wyneb yn wyneb. Dylai'r awdurdod lleol barhau i fonitro'r ddarpariaeth Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n effeithiol.**

4.23 Byddai'r bobl yn cael mwy o fudd pe bai eiriolwyr ffurfiol yn cael eu gwahodd yn gyson i drafodaethau a chyfarfodydd strategaeth, a phe bai gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn bresennol mewn cyfarfodydd MARAC yn fwy

rheolaidd. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff eiriolwyr ffurfiol eu gwahodd i drafodaethau/cyfarfodydd strategol yn fwy cyson yn unol â GDC?**

4.24 Dywedodd rhai darparwyr nad yw'r gwasanaeth wedi gwrando ar eu barn am fentrau fel Turn Only Once a Moving with Dignity yn gyson. Gwnaethant ychwanegu nad yw newid cynlluniau cymorth y bobl i gynnwys pecynnau gofal unigol yn hytrach na phecynnau gofal dwy law bob amser er lles pennaf y bobl. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i drafod y rhesymeg dros unrhyw newid i gynlluniau gofal a chymorth â rhanddeiliaid perthnasol fel rhan o brosesau adolygu ffurfiol a sicrhau y caiff cynlluniau gofal a chymorth cyfredol eu rhannu'n brydlon â darparwyr.**

**Atal**

**<u>Cryfderau</u>**

4.25 Caiff amrywiaeth dda o wasanaethau ataliol eu darparu neu eu comisiynu gan yr awdurdod lleol. Mae effeithiau gwasanaethau fel llyw-wyr cymunedol, gwasanaethau trydydd sector a Hybiau Pwyntiau Siarad yn aml yn sicrhau nad oes rhaid i bobl ddefnyddio gwasanaethau statudol, ac yn atal anghenion rhag cynyddu yn effeithiol.

4.26 Mae tystiolaeth bod pobl yn cael eu cefnogi i gynnal a hyrwyddo eu hannibyniaeth drwy Dechnoleg Gynorthwyol a chymhorthion ac addasiadau. Mae enghreifftiau da o wasanaeth teleofal, synwyryddion cwympiadau, matiau synhwyro a synwyryddion gadael sy'n hyrwyddo annibyniaeth y bobl ac yn sicrhau eu diogelwch.

4.27 Caiff cynlluniau gofal a chymorth y bobl eu hadolygu, ac mae cydymffurfiaeth yr awdurdod lleol ag amserlenni adolygu statudol wedi gwella'n sylweddol. Mae hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth o bwysigrwydd adolygiadau ffurfiol i sicrhau bod cynlluniau'n parhau'n briodol i anghenion gofal a chymorth dilys y bobl. Gwelsom enghreifftiau da o adolygiadau o ansawdd da lle roedd ffocws clir ar sicrhau bod cynlluniau'n parhau i gyflawni canlyniadau'r bobl.

4.28 Mae nifer y micro-ddarparwyr yn yr awdurdod lleol wedi cynyddu i 85. Mae hyn wedi helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol ac wedi helpu pobl i symud o ofal 24 awr i fywyd mwy annibynnol. Mae pobl yn cael budd o'r cymorth hyblyg hwn.

4.29 Mae grŵp trawsnewid wedi cael ei ddatblygu, wedi'i gefnogi gan fwrdd trawsnewid. Nod y grŵp yw sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn

canolbwyntio ar ganlyniadau'r bobl, a bod y canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol gan hyrwyddo cynaliadwyedd hirdymor. Caiff nodau'r agenda drawsnewid ei chyfleu'n llwyddiannus o fewn y gwasanaeth, yn ogystal ag yn gorfforaethol ac yn wleidyddol. Mae ffocws clir ar ail-alluogi er mwyn gwella canlyniadau a lleihau anghenion gofal hirdymor ac mae'r gwasanaeth yn ystyried atgyfnerthu'r ffocws ar ail-alluogi ym mhob rhan o'r gwasanaeth i gynnwys wrth y drws ffrynt.

4.30 Cynigir asesiadau i ofalwyr a chânt eu cefnogi i ddiwallu unrhyw anghenion cymwys am gymorth. Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru i gynnal asesiadau a darparu elfennau o gymorth. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru yn rhan o'r Timau Adnoddau Cymunedol ac yn rhannu gwybodaeth â'r ymarferwyr am grwpiau cymorth cymunedol. Gyda chydsyniad, gall atgyfeirio gofalwyr at y Pwynt Mynediad Unigol pan fydd anghenion yn gwaethygu. Mae gofalwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth emosiynol ac ymarferol y mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru yn ei ddarparu.

4.31 Mae tîm gofal cymhleth wedi cael ei sefydlu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r tîm yn darparu cymorth i bobl sy'n esgeuluso eu hunain, yn celcio ac sydd â phryderon am dai. Mae'n darparu gofal uniongyrchol ac yn gweithio'n agos gyda thimau rhyngasiantaethol.

**<u>Meysydd i'w Gwella</u>**

4.32 Mae'r broses o ddarparu gofal a chymorth amserol a phriodol yn anghyson. Er gwaethaf y lleihad yn niferoedd y bobl sy'n aros am ofal cartref, mae enghreifftiau o bobl yn aros am becynnau gofal cartref er mwyn cael eu rhyddhau o'r ysbyty ac i helpu pobl i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain o leoliadau cartref gofal. Gall hyn fod yn fwy o her yn ne'r sir o bryd i'w gilydd. Mae dewisiadau a chanlyniadau llesiant y bobl yn y fantol, a gall hyn hefyd gynyddu'r risg y bydd pobl yn cael eu sefydliadu ac yn colli eu hannibyniaeth. Cydnabyddir bod yr awdurdod lleol yn gweithio i atal unrhyw wahaniaethau o ran mynediad i wasanaethau a'i fod wedi llwyddo i recriwtio mwy o ymarferwyr cymorth cartref o ganlyniad i ymgyrch recriwtio. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion i leihau amseroedd aros am wasanaethau gofal cartref er mwyn sicrhau bod pobl, a gofalwyr di-dâl, yn cael cymorth amserol ac i atal anghenion rhag gwaethygu.**

4.33 Mae rhestrau aros ar gyfer asesiadau a gwasanaethau gofal a chymorth eraill, a all arwain at anghenion pobl a gofalwyr yn gwaethygu. Mae'r gwasanaeth yn

monitro rhestrau aros ac yn cadw mewn cysylltiad â'r rhai sy'n aros, gan gynnwys drwy gynnal trafodaethau rheolaidd â'r Tîm Adnoddau Cymunedol amlddisgyblaethol a thrwy anfon llythyrau yn hysbysu'r bobl am eu statws a'r hyn y dylent ei wneud os bydd eu hamgylchiadau'n newid. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r llythyrau yn nodi'r math o asesiad y mae'r bobl yn aros amdano. Nid yw rhai o'r rhestrau aros yn nodi'n glir pam mae'r bobl yn dal i fod arnynt a byddai'n fuddiol eu dilysu'n amlach. **Dylai'r awdurdod lleol wella ei systemau er mwyn rhoi rhesymau manwl ac amserol i'r ymarferwyr a'r arweinwyr ynghylch pam mae unigolion yn dal i fod ar restrau aros, a chyflwyno dulliau dibynadwy o wirio a dilysu cywirdeb y data hynny**.

4.34 Er bod enghreifftiau o ofalwyr yn cael eu hasesu'n briodol yn unol â'u hawliau ac yn cael cymorth, mae enghreifftiau lle nad yw'r cymorth yn amserol, a lle nad yw bob amser yn cynnig yr hyn y mae'r gofalwr yn dymuno ei gael. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn hyrwyddo llesiant yn effeithiol.**

4.35 Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi prosesau clir ar waith i helpu i sicrhau bod ymarferwyr Pwynt Mynediad Unigol yn meddu ar wybodaeth gyfredol am y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd ar gael. Mae adborth gan weithwyr proffesiynol yn awgrymu y gall fod cyfleoedd i wella ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael ac i esbonio llwybrau atgyfeirio / cyswllt yn well. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth yn gyson glir a bod ymholwyr yn cael eu cyfeirio'n briodol.**

4.36 Cynhelir adolygiad o bobl sy'n cael eu lleoli mewn cartref gofal o fewn 12 wythnos i gael eu derbyn fel mater o drefn. Mewn ychydig iawn o achosion, byddai pobl y mae eu cynlluniau gofal a chymorth yn nodi bod angen iddynt gamu i lawr o ofal 24 awr i fyw'n annibynnol yn y gymuned yn cael budd o adolygiad mwy amserol. Mewn achosion o'r fath hefyd, byddai'n fuddiol i'r asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth gynnwys mwy o fanylion ynghylch sut y bydd cynnydd y bobl yn cael ei asesu a'i fonitro ar sail amlasiantaeth wrth eu paratoi i gamu i lawr o ofal 24 awr i fyw'n annibynnol. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y cynlluniau gofal a chymorth yn cynnwys mwy o fanylion ynghylch sut y bydd effeithiolrwydd y cynllun gofal a chymorth yn cael ei fesur, a bod gofal a chymorth y bobl yn cael eu lleihau mewn modd amserol.**

4.37 Er y gall micro-ddarparwyr gynnig opsiwn gwahanol i wasanaethau gofal cartref traddodiadol, nid yw pob un yn darparu gofal personol ac felly, gall hyn effeithio ar y gofal a'r cymorth y gallant eu darparu a pha mor dda y gellir cyflawni canlyniadau'r bobl. Gan mai'r bobl sy'n cyflogi'r micro-ddarparwyr yn

uniongyrchol, mae risgiau pe na fyddent yn gallu darparu cymorth. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod amrywiaeth ddigonol o wasanaethau gofal a chymorth ar gael, a bod y cynlluniau gofal a chymorth yn cyfeirio at gynlluniau wrth gefn pe na fyddai'r micro-ddarparwyr yn gallu darparu cymorth.**

4.38 Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol bod ei ddull presennol o sicrhau ansawdd yn dameidiog, ac mae wedi nodi hyn fel maes i'w wella. Bydd system data gofal cymdeithasol newydd yn cael ei rhoi ar waith yn y gwasanaeth yn y dyfodol, ac mae'r gwasanaeth wrthi'n ystyried sut y gallai'r system hon a systemau data eraill a gaffaelwyd yn ddiweddar ei helpu i ddarparu data i lywio'r broses o sicrhau ansawdd ymarfer. Mae enghreifftiau o arferion archwilio a sicrhau ansawdd ar lefel leol, ond mae angen datblygu dull mwy cyson o archwilio a rhannu gwersi a ddysgwyd ar draws y gwasanaeth. **Rhaid i'r awdurdod lleol lunio a gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd cadarn. Mae'r gwelliannau hyn yn hanfodol er mwyn gallu craffu ar ddata i ysgogi gwelliannau i wasanaethau a sicrhau bod gan arweinwyr drosolwg gwell o ymarfer rheng flaen.**

**Partneriaeth**

**<u>Cryfderau</u>**

4.39 Mae'r bobl yn cael budd o drefniadau cydweithio gweithredol da rhwng y timau yn y gwasanaeth yn ogystal â thimau amlasiantaethol. Mae cyd-leoli Timau Adnoddau Cymunedol gyda chydweithwyr o asiantaethau eraill yn hyrwyddo gwaith partneriaeth mewn modd cadarnhaol, ac yn sicrhau canlyniadau amserol i bobl. Yn yr un modd, mae'r tîm anableddau cymhleth wedi'i integreiddio'n llawn ag ymarferwyr o wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd sydd wedi'u cyd-leoli. Pan fydd yr holl swyddi ymarferwyr yn y tîm wedi'u llenwi o safbwynt iechyd, gall wella'r broses gyfathrebu yn llwyddiannus er mwyn hyrwyddo anghenion cymhleth y bobl a sicrhau dull cydgysylltiedig o ddarparu gofal iddynt.

4.40 Mae cydberthnasau gwaith cadarnhaol ar waith, yn weithredol ac yn strategol, mewn perthynas â diogelu rhwng partneriaid a'r awdurdod lleol.

4.41 Mae trefniadau cydweithio cadarnhaol rhwng asiantaethau partner, iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol. Mae'r timau hyn wedi cael eu cyd-leoli sy'n cyfrannu at brosesau cyfathrebu a threfniadau cydweithio effeithiol.

4.42 Nododd yr heddlu fod plismona lleol a chydweithrediad â'r awdurdod lleol yn gryfder, sydd wedi arwain at leihad yn nifer y troseddau ac adborth cadarnhaol gan y gymuned. Mae rhwydwaith cryf ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth ac mae'r model yn cael ei ystyried i'w ddefnyddio'n ehangach ledled Gogledd Cymru.

4.43 Mae gwasanaeth digartrefedd hefyd ar gael ochr yn ochr â gofal cymdeithasol i oedolion o dan yr un trefniadau llywodraethu. Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth da ar waith ar draws timau i hyrwyddo anghenion gofal cymdeithasol a thai y bobl.

4.44 Mae'r arweinwyr yn fyfyriol a phan gaiff anghenion eu nodi, maent yn rhoi dull system gyfan ar waith, gan edrych ar draws gwasanaethau i benderfynu pa rai sydd yn y sefyllfa orau i helpu i gyflawni dyletswyddau statudol a chefnogi canlyniadau personol y bobl.

**Meysydd i'w Gwella**

4.45 Gall y cydberthnasau strategol a gweithredol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol weithio'n dda. Fodd bynnag, gall ansefydlogrwydd o ran swyddi strategol allweddol yn BIPBC effeithio ar brosesau cyfathrebu, gwneud penderfyniadau a datblygiadau i wasanaethau. Mae'r perfformiad o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn dda, ond mae'r awdurdod lleol a darparwyr yn parhau i weld achosion anniogel o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Mae'r gwasanaeth yn codi'r digwyddiadau hyn yn briodol â BIPBC, ond maent yn dal i ddigwydd. Hefyd, mae heriau sylweddol pan fo'n rhaid ystyried cyllid. Mae hyn mewn perthynas â Gofal Iechyd Parhaus a chymorth ôl-ofal yn unol ag Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Er gwaethaf ymdrechion cyson gan yr awdurdod lleol i fynd i'r afael â hyn, mae oedi sylweddol wrth bennu cymhwysedd ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus, a phwy sy'n gyfrifol am gyllido gwasanaethau ôl-ofal Adran 117. Yn y cyfamser, mae'r awdurdod lleol neu'r bobl yn ariannu'r gofal, er bod gan y bobl anghenion gofal iechyd cymwys. **Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion presennol i weithio mewn partneriaeth â BIPBC i wella canlyniadau i'r bobl.**

4.46 Mae enghreifftiau o asiantaethau fel asiantaethau trydydd sector yn cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau strategol, gan adlewyrchu gwasanaeth cydweithredol ac ymatebol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson, a nododd rhai asiantaethau y byddent yn gwerthfawrogi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn trafodaethau strategol am wasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. **Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod sefydliadau yn y sector preifat a'r**

**trydydd sector yn cael eu cynnwys yn gyson mewn trafodaethau strategol am y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau.**

4.47 Nododd rhai o'r bobl yn arolwg AGC nad oeddent wedi cael copi o'u hasesiad na'u cynllun gofal a chymorth. Dywedodd darparwyr hefyd nad ydynt bob amser yn cael copïau o'r cynlluniau gofal a chymorth cychwynnol na chynlluniau wedi'u diwygio mewn modd amserol. **Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei brosesau ar gyfer cynnig copïau o asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n dymuno cael copi yn ei gael yn gyson. Hefyd, dylid sicrhau bod darparwyr yn cael copïau o'r cynlluniau gofal a chymorth mewn modd amserol.**

4.48 Dywedodd darparwyr fod ganddynt gydberthnasau da â'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae adegau pan fo newidiadau i brosesau awdurdodi ariannol i gynyddu pecynnau cymorth yn achosi oedi anfwriadol mewn rhai amgylchiadau pan fydd darparwyr yn nodi mwy o anghenion cymwys. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod unrhyw brosesau mewnol ar gyfer awdurdodi'r gyllideb mewn perthynas â newidiadau i becynnau cymorth yn amserol ac yn cydymffurfio'n gyson â Chod Ymarfer Rhan 4 ‘y Ddeddf’ pan fydd anghenion person yn newid.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 21 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pump.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.

- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, ag 11 o bobl sy'n derbyn gwasanaethau/sydd wedi cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, â 96 o gyflogeion yr awdurdod lleol ac aelodau etholedig (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol, rheolwyr gwasanaethau, uwch-reolwyr, pennaeth/penaethiaid gwasanaeth, cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol).
- Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio staff.
- Gwnaethom arsylwi ar gyfarfodydd strategol â phartneriaid ac asiantaethau eraill
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr arolygiad gwerthuso perfformiad hwn yn Gymraeg.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gamau gweithredu addas, mae risg y gall yr awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod pobl yn profi llesiant ym mhob rhan o'u bywyd. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach yn unig. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |

| | |
|---|---|
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodiad y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

## <u>Atodiad 2</u>

### Tabl Diffinio Meintiau

| **Terminoleg** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Bron pob un | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| Y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos i 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Nifer bach | Llai nag 20% |
| Nifer bach iawn | Llai na 10% |